

Cyfes y Grefft

Caws Cymru, Eurwen Richards,
Gwasg Carreg Gwalch, 104tud.. pris £5.50

Mae caws wedi cael ei wneud yng Nghymru ers canrifoedd, ac mae'r cynnyrch traddodiadol a chyfoes wedi ennill bri rhyngwladol. Mae'r gyfrol hon yn olrhain hanes gwneud caws ar hyd y canrifoedd, drwy gyfnod datblygiad a dirywiad yr hufenfeydd neu ffatrioedd caws, i adfywiad y caws fferm traddodiadol. Ar y daith, mae'r awdur yn disgrifio'r broses o wneud caws, rhan allweddol merched yn y diwydiant, twf a dirywiad addysg a hyfforddiant, a rheoli safon. Mae'r gyfrol hefyd yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gynhyrchwyr caws Cymru heddiw.

Mae'r awdur yn cael ei chydabod yn rhyngwladol fel arbenigwraig ar gaws. Mae ei gwaith fel technolegydd bwyd wedi mynd â hi i sawl rhan o'r byd, ond mae ei gwreiddiau yn naear Cymru.

A fu heddwch? Robyn Lewis,
Y Lolfa, 246 tud, pris £9.95

Mae'r gyfrol yn ddogfen hanesyddol ac yn gofnod pwysig o ymdrech y Cymry i ddatblygu y gwahanol fathau o gaws sydd ar gael ar y farchnad heddiw.

Mewn cyfrol newydd gan gyn-archdderwydd Cymru, Robyn Lewis, datgelir y bu gorseddau o bedwar ban byd mewn cysylltiad â'r Orsedd yn ystod y pum mlynedd diwethaf er mwyn rhannu o'r profiadau a gwahodd gorsedddegion i weithgareddau mewn amryw o wledydd.

Nid dim ond cronicl o ddigwyddiadau gorseddol ac eisteddfodol sydd yn y gyfrol hon - aeth Robyn Llyn ati i ddethol a dewis y dagreul, y doniol a'r abswrdd, sydd i'w canfod yn hanes hir Gorsedd y Beirdd a'r Brifwyl.

Mae'n cynnwys yr hyn a glywodd ac a welodd, yn straeon a chlecs (rhai yn ei erbyn ef ei hun), o'r dwys i'r chwerthinllyd i'r grotesg, heb betruso i fynegi ei farn mor groch ag erioed. Yn y bennod olaf mae'r awdur wedi rhestru sawl cymêr, pobol fel y Doctor William Price, Llew Llwyfo, Dewi Emrys, Harri Gwyn a lluo o rai eraill tra lliwgar. Mae'n werth ei chael yn eich llyfrgell.


Cefn Gwlad Geoff Charles,
Ioan Roberts. Y Lolfa 136 tud.
pris £12.95

Er mai mewn trefi y bu Geoff Charles fyw am y rhan fwyaf o'i oes, câi ei ddenu gan fywyd cefn gwlad, a bu'n cofnodi ei hynt a'i dranc am hanner canrif a mwy. Teithiai gefn gwlad benbaladr gyda gohebwy'r *Y Cymro* yn darlunio'i phobl, ei thraddodiadau, ei dathlu a'i dioddef.

Mae yn y gyfrol hon gant a mwy o ffotograffau eiconig. Mae yma ddarlun byw o'r 'Hen Ffordd Gymreig o Fyw', ond mae hefyd yn gofnod o ddiwedd cyfnod - a dyna sy'n gwneud y

Cip yn ôl ar yr Hen Ffordd Gymreig o Fyw

Cefn Gwlad Geoff Charles



delweddau yma mor bwerus a thrist. Cawn hanes Cefn Gwlad o'r oes a fu hyd heddiw. Cawn lun cynnar o dan y teitl Bwydo'r Rhyfel, Gorffennaf 1939, yn dangos rhes o ferched â'u buddai, yn cystadlu i wneud menyng yn y Sioe Frenhinol yng Nghaernarfon ar drothwy'r Ail Ryfel Byd. Yna, llun o 1940 yn dangos car llusg yn cael ei dynnu gan geffyl ac yn cael ei ddefnyddio i chwalo calch ar y tir; hel tatws ym Maldwyn yn 1942; saer olwynion wrth ei waith ar Ynys Môn; towr wrthi yn gosod to gwellt ar dafarn y Mason's Arms yng Nghydsweli. Roedd to gwellt y pryd hynny yn costio cymaint â'r to llechi Cymreig gorau ac yn parhau am ddim ond traean ei oes; Mr. W. M. Parry, y teiliwr o Blas Belle, Y Ffôr, yn 1955; Y cewyllwr wrth ei waith o Borth Amlwch, 1961; Y Mwd yn Sioe Frenhinol 1954 cyn iddi symud i'w chartref parhaol yn Llanelwedd; llun arbennig iawn o Sioe Mynytho, Awst 1953, o gystadleuaeth ddefnyddio ffust ddyrnu; Gwneud cyflaith yn Nhŷ Du, y Parc, ger y Bala, yn Rhagfyr 1970; marw Evan Edward Lloyd yn 1963, ef oedd y bachgen sy'n eistedd o dan y ffenestr yn llun enwog Curnow Vosper, Salem; Eira Mawr y Ganrif, Mawrth 1947 - saith wythnos o eira a rhew; Ffair y Bala, Mai 1952; Postmon ceffyl, Medi 1955 - erbyn canol y pumdegau dim ond dau bostmon trwy wledydd Prydain oedd yn defnyddio ceffyl i gario'u llythyrau - ac roedd y ddau yng Ngheredigion; Cadw dyletswydd, Mawrth 1961- erbyn canol y ganrif ddiwethaf roedd yr arfer o gychwyn y diwrnod trwy gadw dyletswydd, neu ddarllen y Beibl, wedi diflannu. Ond nid ar fferm Tŷ Du, Llannor, ym Mhen Llyn, cartref William Jones; a chawn lun o Tyn-y-braich yn dangos tri o feibion Cwm Maesglasau, Dinas Mawddwy, a oedd wedi'u geni'n ddall - Teulu Tyn-y-braich oedd sail *O, Tyn y gorchudd*, nofel Angharad Price a enillodd wobr Y Fedal Ryddiaith yn 2003.

Ni ellir terfynu heb gyfeirio at y llu cymeriadau a bortreir, megis y Gŵr o Baradwys; Selina y feudwyes a oedd yn byw mewn bwthyn uncorn to gwellt ar Fynydd Hiraethog, John Rowlands, bardd y lori laeth; Harry Killick y crwydryn, a Lettice Rees, brenhines y criw o fenywod a ddefnyddiai asynod i gasglu cocos ar draeth Llansaint ger Cydweli.

Llyfr ardderchog iawn. Cefais i fwynhad mawr yn pori drwyddo. Mae'n ddogfen hanesyddol yn wir, ac mae yna rywbeth at ddant pawb ynddi. Roedd y gyfrol Cymru Geoff Charles wedi datblygu i fod yn un o lyfrau mwyaf poblogaidd 2004 gan werthu dros 2000 o gopiau. Synnwn i ddim y gwna'r gyfrol hon yr un peth.

Mae Ioan Roberts yn awdur, newyddiadurwr a chynhyrchydd teledu. Bu'n gweithio ar *Y Cymro*

ac mae'n byw ger Pwllheli. Hon yw ei bumed cyfrol.

Dylid canmol **Y Lolfa** am ddiwyg arbennig gyda lluniau o'r ansawdd gorau. Mae'n werth ei phrynu am sawl rheswm. Prynwch a mwynhewch.

Geriadurig Geiriadur Bach,
Cymraeg/Llydaweg Rhisiart Hincks,
Cyhoeddwr Yoran Embanner, 475 tud. pris £4

Geiradur Llydaweg/ Cymraeg a Chymraeg/ Llydaweg a geir yma. Mae'r geiriadur yn cynnwys 8000 o eiriau, yn ogystal â chyfieithiadau a sillafu seinegol. Yn ei ragymadrodd mae'r awdur yn datgan 'Nid yw geiriaduron dwyieithog ond yn offer sy'n gallu helpu i ddeall iaith arall. Rhaid deall hefyd mai detholiad anghyflawn o gyfieithiadau yn unig y gellir ei roi mewn unrhyw eiriadur, a bod gwybod sut i gyfieithu gair yn dibynnu yn llwyr ar ei gyddestun. Nid y Llydaweg a'r Gymraeg a geir yma, felly, ond rhywbeth a fydd yn galluogi'r defnyddiwr i ddarganfod yr ieithoedd hynny.



Dylid cofio mai geirfa pob-dydd yn unig a gyflwynir yn y geiriadur bach hwn.'

Rhoddir gair yr iaith wreiddiol mewn print trwm, yna eglurir ei ynganiad rhwng bachau petryal [yn yr wyddor seinegol]. Wedyn, daw'r wybodaeth ramadegol mewn llythrennau italaidd. Ffurf lusog yr enw, mewn print trwm, a roddir. Fel arfer, i gael y ffurf luosog, nid oes angen ond cymryd ffurf unigol ac ychwanegu'r terfyniad, sy'n dilyn cyplysod e.e. **gevell(...)** - ed > **gevelled**. Yn Gymraeg, yn aml ceir newidiadau yn y bôn wrth ffurfio'r luosog, ac arbed lle defnyddiwyd llinell unionsyth i wahanu'r bôn y mae gofyn ychwanegu'r terfyniad luosog ato e.e. geflell (...) -**eilliaid** > **gefeilliaid**.

Yng ngramadegau a geiriaduron y Llydaweg, ystyr enw sy'n cymryd terfyniad i ffurfio'r unigol fel **gwenan** 'gwenyn' > gwenanen 'gwenynen', yw enw torfol, tra bo'r Cymry'n eu dosbarthu fel enwau luosog.

Mae'r geiriadur o waith Rhisiart Hincks, sy'n gallu siarad Llydaweg yn rhugl. Dim ond 6.5cm wrth 4.5cm yw maint y gyfrol, ac fe'i dosberthir gan Gyngor Llyfrau Cymru. Mae'n gyfrol werth ei phrynu petai dim ond ichi sylweddoli mor agos yw'r Llydaweg i'r Gymraeg.